GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIO RHIF 15A) GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) 2013 2021

HYSBYSIR DRWY HYN fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Tredŵr wedi gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2, 3, 4, 32, 35, 124 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, sy'n diwygio'r cyfyngiadau a ganlyn yng **NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 ("Gorchymyn 2013")** fel y'i diwygiwyd, drwy ddirymu Plan Gorchymyn **BU35 DIW 0 DYDDIEDIG 1/4/2013** a mewnosod y Planiau Gorchymyn diwygiedig/newydd **BU35 DIW 1, BU36 DIW 0** and **BV35 DIW 0** sy'n cyflwyno gwaharddiad ar aros, llwytho a dadlwytho unrhyw bryd yn unol â'r manylion yn yr atodlen isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn a'r Cynlluniau, ar gael drwy gysylltu â naill ai traffictransportation@bridgend.gov.uk neu Jane.Dessent@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn **:** 01656 643643 (dyfynnwch y cyfeirnod cyfreithiol HIG001-1013/JPD) neu maen nhw i'w gweld yn Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, Angel Street, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AH yn ystod yr oriau canlynol: Llun - Gwener 9:15-13:00 - 14:00-18:00 a Sadwrn 9:15-13.00 - 14:00-17:00 neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ .

Cafodd y Gorchymyn ei wneud ar 10/12/2021 a daw i rym ar 24/12/2021. Os bydd unrhyw berson yn dymuno amau dilysrwydd unrhyw Orchymyn neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw neu nad ydynt o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf neu mewn unrhyw offeryn a wnaed o dan y Ddeddf, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw, o fewn chwe wythnos ar ôl y dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

Os yw'n anodd ichi ymateb mewn ysgrifen, neu os oes arnoch angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft print brasach, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn**:** 01656 643643 cyf cyfreithiol HIG001-1013/JPD.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg ac ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb

ATODLEN
GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO UNRHYW BRYD

Brocastle Avenue, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar yr ochr orllewinol i'r gogledd o gylchfan Brocastle, tua'r gogledd am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
(ii) Ar yr ochr ddwyreiniol, i'r gogledd o gylchfan Brocastle, tua'r gogledd am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
(iii) Ar yr ochr orllewinol i'r de o gylchfan Brocastle, tua'r de am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
(iv) Ar yr ochr ddwyreiniol i'r de o gylchfan Brocastle, tua'r de am bellter o ryw 30 metr (33 llath).

Horsefair Road, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar yr ochr ogleddol wrth bwynt gorllewinol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 295 metr (323 llath).
(ii) Ar yr ochr ddeheuol wrth bwynt gorllewinol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 295 metr (323 llath).

Moor Road, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar yr ochr ogleddol wrth bwynt dwyreiniol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 45 metr (49 llath).
(ii) Ar yr ochr ddeheuol wrth bwynt dwyreiniol y ffordd tua'r gorllewin am bellter o ryw 65 metr (71 llath).

Dyddiedig: 16/12/2021

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

E34-1015/HIG001-1013